OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 426 (Cy.43)

AER GLÅN, CYMRU

Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*1 Mawrth 2005*
Yn dod i rym	- -	*5 Mawrth 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), ac yntau wedi'i fodloni y gall y dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio gan y Gorchymyn hwn gael eu defnyddio i losgi tanwydd nad yw'n danwydd awdurdodedig a hynny heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 5 Mawrth 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio rhag adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993

2. Mae'r dosbarthau ar leoedd tân a ddisgrifir yn yr Atodlen, ar yr amodau sy'n cael eu pennu yno, yn cael eu hesemptio rhag darpariaethau adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (sy'n gwahardd gollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg).

Diwygio Gorchymyn cynharach

3. Yn y cofnod sy'n ymwneud â'r Dunsley Yorkshire Stove yn yr Atodlen i Orchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) 1999(**3**)—

(a) yn y golofn o dan y pennawd "Class of fireplace", ar ôl "Dunsley Yorkshire Stove" rhodder "and Dunsley Yorkshire Multifuel Stove and Dunsley Yorkshire Multifuel Stove and Boiler"; a

(**1**) 1993 p.11.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S. 1999/1515.

(b) yn y golofn o dan y pennawd "Conditions", ar ôl "bearing the reference A/22160" rhodder ", as amended by the manufacturer's instructions dated 4 October 2004 bearing the reference D13 with regard to the Stove and Multifuel Stove and the manufacturer's instructions dated December 2004 bearing the reference GHD/DUN4B/1 with regard to the Multifuel Stove and Boiler".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

John Marek
1 Mawrth 2005 Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.